# Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-powys

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD 2017-2018

PANEL HEDDLU A
THROSEDDU DYFED POWYS

DYFED POWYS POLICE
AND CRIME PANEL



# cynnwys


| | |
|---|---|
| rhagair gan y cadeirydd | 1 |
| pwy ydym ni? | 2 |
| ein swyddogaeth | 3 |
| adolygiad o'r Flwyddyn | 4 |
| ein hamcanion ar gyfer 2018-2019 | 6 |
| casgliad | 8 |

# rhagair gan y cadeirydd

Rwy'n falch iawn o gael cyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf erioed Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Pan grëwyd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol a'u Paneli Heddlu a Throseddu cysylltiedig yn 2012, cafwyd newid sylweddol o ran sut y mae heddluoedd Cymru a Lloegr yn cael eu llywodraethu.

Beth bynnag yw eich safbwynt ynghylch buddion y dull hwn o gymharu â hen system Awdurdod yr Heddlu, ma'r gefnogaeth dros y cysyniad o gael Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cynyddu'n araf dros y blynyddoedd, a chynigiwyd ymgeisydd gan bob prif blaid wleidyddol yn etholiadau diwethaf y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Efallai nad yw'n gyd-ddigwyddiad mai'r ardal a gafodd y ganran uchaf o bleidleiswyr yng Nghymru a Lloegr (52%) oedd Dyfed-Powys.
Bwriad cyflwyno rolau o'r fath oedd y byddai'r Comisiynwyr, a'r Heddlu eu hunain yn y pen draw, yn dod yn fwy atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd drwy'r blwch pleidleisio, ac felly byddent yn fwy ymatebol. Fodd bynnag, mae rhoi pŵer o'r fath i wleidydd unigol am nifer o flynyddoedd yn peri risgiau. Nod Paneli'r Heddlu a Throseddu yw lleddfu'r risgiau hyn.

Felly, mae fy nghydweithwyr a minnau wedi ymrwymo i sicrhau bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn atebol am berfformiad ei swyddogaethau statudol a'i gynorthwyo i ddarparu'r gwasanaethau heddlu effeithiol ac effeithlon y mae'r cyhoedd yn eu haeddu.

# pwy ydym ni?



Sefydlwyd Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn 2012 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Mae 14 aelod ar y Panel, sy'n cynnwys;

1. 3 Chynghorydd Sir o Sir Gaerfyrddin
2. 3 Chynghorydd Sir o Geredigion
3. 3 Chynghorydd Sir o Sir Benfro
4. 3 Chynghorydd Sir o Bowys
5. 2 aelod cyfetholedig annibynnol

Mae pob aelod o'r Panel yn cael ei benodi'n ffurfiol gan y Swyddfa Gartref.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Aelodau'r Panel yn Atodiad 1.

# ein swyddogaeth

Swyddogaethau Panel yr Heddlu a Throseddu yw;

1. Adolygu Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd
2. Adolygu cyllideb ddrafft flynyddol y Comisiynydd, a'r pŵer i roi feto ar lefel y praesept
3. Ymdrin â chwynion penodol ynghylch y Comisiynydd neu ei ddirprwy
4. Craffu ar benderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd
5. Adolygu'r bwriad i benodi neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl a phenodiad rhai staff uwch yn swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
6. Cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol
7. Rhoi adroddiadau neu argymhellion i'r Comisiynydd
8. Adolygu ymddygiad y Comisiynydd

Dyma swyddogaethau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu;

1. Pennu blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys;
2. Cyhoeddi cynllun yr heddlu a throseddu;
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ynghylch materion plismona;
4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
5. Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y Llysoedd;
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi pobl sy'n agored i niwed;
7. Penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os bydd angen;
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl;
9. Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol; a
10. Phennu cyllideb flynyddol yr Heddlu a lefel y praesept

**Nid oes gan y Panel, na Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, unrhyw rôl o reoli gwaith plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw Plismona Gweithredol.**






# adolygiad o'r Flwyddyn

**Aelodau newydd**
Following the Local Government elections in May 2017, the Panel saw significant changes in its membership. Seven new members were appointed and five previous members returned, two of whom were co-opted members.

**Hyfforddiant**
Cafodd pob aelod o'r Panel hyfforddiant sefydlu/gloywi o ran eu swyddogaethau statudol a'r heriau y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu.

**Praesept**
Ar 26 Ionawr 2018, cafodd y Panel gyfarfod i ystyried lefel y praesept a gynigir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-2019. Wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod hwnnw, cafodd Aelodau'r Panel sesiwn briffio manwl gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a staff uwch eraill ynghylch;

1. Sefyllfa ariannol yr heddlu, gan gynnwys incwm disgwyliedig, gwariant a chronfeydd wrth gefn;
2. Y galw sydd ar yr heddlu, yn enwedig mewn perthynas â gwe-droseddau, ymchwiliadau i achosion hanesyddol o gam-drin rhywiol, a throseddau difrifol a chyfundrefnol.
3. Lefelau staffio, gan gynnwys swyddogion â gwarant (h.y. Swyddogion yr Heddlu), Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a staff sifiliaid.

Yn ystod cyfarfod y Panel ar 26 Ionawr 2018, gofynnodd Aelodau'r Panel i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i Brif Swyddog Ariannol am y data ariannol a'r rhagdybiaethau y dibynnir arnynt i gyfiawnhau'r praesept arfaethedig.

Ar ddiwedd y broses honno, roedd y Panel yn fodlon bod y praesept arfaethedig yn rhoi gwerth am arian ac argymhellwyd i'r Comisiynydd fod y praesept arfaethedig yn cael ei roi ar waith.

**Gwrandawiad i Gadarnhau**
Ar 16 Chwefror 2018, cafodd y Panel gyfarfod er mwyn ystyried cais gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a ofynnodd i'r Panel gadarnhau ei fwriad i benodi'r Prif Swyddog Ariannol newydd.

Cafodd y Panel gyfle i ofyn cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am broses y penodiad arfaethedig a'r ymgeisydd a ffefrir ynglŷn â pha mor addas ydyw ar gyfer y rôl. O ganlyniad, argymhellodd y Panel fod y Comisiynydd yn penodi'r ymgeisydd a ffefrir.

**Cwestiynau â rhybudd**
Yn ystod y flwyddyn mae Aelodau'r Panel wedi gofyn cwestiynau i'r Comisiynydd am ystod eang o faterion sydd wedi'u cynnwys yn ei faes gorchwyl. Fodd bynnag, cafodd gwestiynau am y canlynol yn benodol;

1. Ansawdd a chost y cymorth awyr a dderbynnir gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.
2. Gallu Heddlu Dyfed-Powys i ymateb i ddigwyddiadau'n ymwneud â therfysgwyr yn ardal yr heddlu.
3. Lleihad yn nifer y cerbydau a gafodd eu stopio gan yr heddlu oherwydd yfed a gyrru.

Gellir gweld y cwestiynau a ofynnwyd i'r

Comisiynydd a'i atebion manwl iddynt yng nghofnodion cyfarfodydd y Panel ar ei wefan drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod; http://panelheddluathroseddudp.cymru/

**Gwaith arall**

Mae Aelodau'r Panel hefyd wedi gwneud y canlynol yn ystod y flwyddyn;

1. Craffu ar sut y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol
2. Craffu ar waith y Cyd-bwyllgor Archwilio sy'n cynorthwyo Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl
3. Adolygu'r holl benderfyniadau sylweddol a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a gofyn cwestiynau iddo amdanynt
4. Adolygu'r holl adroddiadau a ddarperir gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy'n berthnasol i Heddlu Dyfed-Powys, a holi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu amdanynt.








# yr amcanion ar gyfer 2018-2019

Yn ystod blwyddyn y cyngor eleni, nod y Panel fydd cyflawni ei swyddogaethau statudol allweddol fel a ganlyn;

| Swyddogaeth y Panel | Beth fyddwn yn ei wneud | Ein hamcanion | Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni ein hamcanion |
|---|---|---|---|
| Craffu ar braesept arfaethedig yr heddlu | Adolygu cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer 2017-2018<br><br>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i Brif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.<br><br>Cynnal gwrandawiad i ystyried y praesept arfaethedig a gwneud argymhelliad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu | Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys | Bod unrhyw gynnydd arfaethedig ym mhraesept yr heddlu ar gyfer 2019-2020 yn briodol gan ystyried amgylchiadau Heddlu Dyfed-Powys ar y pryd<br><br>Bod Heddlu Dyfed-Powys yn gallu gweithredu o fewn y gyllideb a glustnodir iddo wrth ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen ar drigolion Dyfed-Powys |
| Craffu ar sut y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol | Mynychu ac arsylwi cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu<br><br>Adolygu a chraffu ar Agendâu ac Adroddiadau sy'n cael eu hystyried gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu<br><br>Gofyn cwestiynau i'r Comisiynydd am sut y mae'n sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol | Sicrhau bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol mewn modd trylwyr a chadarn er mwyn cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu a'r penderfyniadau gweithredol o ran plismona y mae'r Prif Gwnstabl yn eu gwneud. | Bod yna dystiolaeth amlwg bod Comisiyny-dd yr Heddlu a Throseddu yn herio'r Prif Gwnstabl lle bo'n briodol i wneud hynny. |

Objectives continued;

| Swyddogaeth y Panel | Beth fyddwn yn ei wneud | Ein hamcanion | Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni ein hamcanion |
|---|---|---|---|
| Craffu ar effaith y Cynllun Heddlu a Throseddu | Derbyn adroddiadau rheolaidd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch gweithredu'r Cynllun Heddlu a Throseddau<br><br>Derbyn a nodi unrhyw adroddiadau perthnasol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi / rheoleiddwyr eraill a gofyn cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu amdanynt<br><br>Ceisio barn rhanddeiliaid eraill a'r Cyhoedd | Sicrhau bod blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n parhau i fod yn addas i'r diben a bod yr amcanion penodol yn cael eu cyflawni drwy roi'r blaenoriaethau hyn ar waith | Mae yna dystiolaeth amlwg bod Blaenori-aethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n cael eu cefnogi gan randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd<br><br>Mae yna dystiolaeth amlwg bod perfformi-ad gweithredol Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i gefnogi'r blaenoriaethau hynny<br><br>Mae yna dystiolaeth amlwg bod y strate-gaethau comisiynu a ddefnyddir gan y Comisiynydd yn parhau i gefnogi'r blaenoriaethau hynny |
| Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau Panel yr Heddlu a Throseddu | Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig er mwyn rhoi gwybod iddynt am ein gwaith a cheisio eu barn am blismona a throsedd yn Nyfed-Powys. | Sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r hyn yr ydym yn ei wneud a pham. | Ein bod wedi ymgy-sylltu â mwy o breswylwyr Dyfed-Powys nag o'r blaen. |





# casgliad

Mae plismona a throsedd ac anhrefn yn fater i bawb. Mae gan bawb ddiddordeb mewn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ymatebol i anghenion y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Fel cyn-gwnstabl gwirfoddol, rwyf yn deall y berthynas unigryw sydd bob amser wedi bod rhwng yr heddlu a'r cyhoedd. Yn syml, nid yw'n bosibl i ni fyw mewn cymdeithas sy'n ddiogel i'n teuluoedd heb heddlu effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl i'r heddlu fod yn effeithiol heb gyfranogiad a chefnogaeth y cyhoedd.

Mae fy nghydweithwyr a minnau wedi ymrwymo i wneud ein rhan i sicrhau bod trigolion Dyfed-Powys yn cael yr heddlu sydd ei angen arnynt ac y maent yn ei haeddu. Rydym yn credu'n gryf y gellir cyflawni'r nod hwn drwy gael eich cyfranogiad a'ch cefnogaeth.



# atodiad 1

## Aelodau Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys:

**Cyng. ERYL MORGAN**

'Berso', 29 Heol Capel Isaf,
Llanelli SA15 1QD

**01554 759115**



SIR GAERFYRDDIN

**EMorgan@sirgar.gov.uk**

**Cyng. KEN HOWELL**

'Penlan Fawr', Penyboyr,
Felindre, Llandysul
SA44 5JF

**01559 370555**



SIR GAERFYRDDIN

**KenHowell@sirgar.gov.uk**

**Cyng. JIM JONES**

'Tir Gof', 9 Heol Hen,
Pump-hewl, Llanelli SA15
5HJ

**01269 860138**



SIR GAERFYRDDIN

**TJJones@sirgar.gov.uk**

**Cyng. ALUN LLOYD JONES**

Murmur yr Ystwyth, 14
Maes Isfryn, Llanfarian,
Aberystwyth, Ceredigion
SY23 4UG

**01970 623661**



CEREDIGION

**alun.lloydjones@ceredigion.gov.uk**

**Cyng. KEITH EVANS**

'Deganwy', Sunny Hill,
Llandysul SA44 4DT

**01559 362258**



CEREDIGION

**keith.evans@ceredigion.gov.uk**

**Cyng. LLOYD EDWARDS**

13 Maes Seilo,
Penrhyncoch, Ceredigion
SY23 3FL

**07375498571**



CEREDIGION

**lloyd.edwards@ceredigion.gov.uk**

**Cyng. DAVID EVANS**

Hafan Gymreig, Bryntirion
Lane, Rhayader, Powys
LD6 5LT

**01597 810298**



POWYS

**cllr.david.evans@powys.gov.uk**

**Cyng. LES GEORGE**

'The Mill', Pontdolgoch,
Caersws, Powys SY17 5JE

**01686 688231**



POWYS

**cllr.les.george@powys.gov.uk**

## Members of Dyfed Powys Police and Crime Panel (continued):

**Cyng. WILLIAM POWELL**

Middle Genffordd,
Penbont Road, Talgarth,
Brecon LD3 0EH

**07703 112113**



POWYS

**cllr.william.powell@powys.gov.uk**

**Cyng. MICHAEL JAMES**

'Bronllwyn', 7 Grove
Terrace, Llandudoch
SA43 3ER

**01239 614020**



SIR BENFRO

**Cllr.mike.james@sirbenfro.gov.uk**

**Cyng. ROBERT SUMMONS**

19 Stryd y Gorllewin,
Rhosfarced,
Aberdaugleddau, Sir
Benfro SA73 1JH

**01646 600827**



SIR BENFRO

**cllr.rob.summons@sirbenfro.gov.uk**

**Cyng. STEPHEN JOSEPH**

105 Heol Siarl,
Aberdaugleddau, Sir
Benfro SA73 2HW

**07789 685035**



SIR BENFRO

**cllr.stephen.joseph@sirbenfro.gov.uk**

**IAN ROFFE**

Greenlands, Clarach,
Aberystwyth, Ceredigion,
SY23 3DT

**01970 820537**



AELOD CYFETHOLEDIG

**i.roffe@btinternet.com**

**HELEN THOMAS**

16 Maes Yr Ysgol, Peniel,
Sir Gaerfyrddin , SA32 7BT

**01267 235824**



AELOD CYFETHOLEDIG

**Helent072@gmail.com**

PANEL HEDDLU A
THROSEDDU DYFED POWYS

DYFED POWYS POLICE
AND CRIME PANEL